# Newyddlen

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Newyddion a diweddariadau gan Uchelgais Gogledd Cymru a Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mehefin 2023

gwyb@uchelgaisgogledd.cymru

## Mae ceisiadau ar agor i'r Her Noddwr Hydrogen



Rydym ar fin lansio proses gystadleuol i benodi sefydliad i ddatblygu a darparu canolbwynt hydrogen yn y rhanbarth. Bydd y canolbwynt yn cynnwys cyflenwi a defnyddio hydrogen, gyda hyd at £11.2m o gyfalaf y Cynllun Twf yn mynd tuag at alluogi galw.

Her Noddwr Hydrogen

## Y Ganolfan DSP: Flwyddyn yn ddiweddarach

Ers ei lansio yn 2022, mae'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) ym Mhrifysgol Bangor wedi ennill cydnabyddiaeth academaidd a phroffesiynol mewn cyhoeddiadau fel y Sefydliad Technoleg Peirianneg a mwy. Yn ei blwyddyn gyntaf, mae'r Ganolfan wedi:

- **CREU CHWECH SWYDD, CYNALIADWY & GWERTH UCHEL**
- **CYNHYRCHU GVA YCHWANEGOL O £614,095**
- **SICRHAU £4.6 MILIWN O GYLLID YCHWANEGOL**

## Derbyniodd ein canllawiau allyriadau carbon a bioamrywiaeth gydnabyddiaeth ryngwladol

Roedd yn bleser gennym dderbyn cydnabyddiaeth fel Astudiaeth Achos Arweinyddiaeth yng nghanllawiau carbon mewn seilwaith cenedlaethol y DU PAS 2080. Mae'r canllawiau'n darparu safon ar gyfer rheoli carbon mewn adeiladau a seilwaith, gan leihau carbon a chost drwy ddylunio, adeiladu a defnyddio deallus.

Am fwy

## Mae Morlais yn darparu gwaith a hyfforddiant

Mae dros 97 y cant o'r gweithwyr adeiladu yn byw yng Ngogledd Cymru, gyda bron i 70 y cant yn siaradwyr Cymraeg. Mae noddwr y prosiect Menter Môn yn gweithio gyda Jones Bros i ddarparu cyfleoedd adeiladu lleol ar y safle.

Un o'r gweithwyr yw Prentis 19 oed, Twm, o Fryngwran

Stori Twm

Bydd buddsoddiad Cynllun Twf yn cefnogi'r prosiect i ddatblygu cysylltiad grid ychwanegol i ganiatáu mwy o dyrbinau llanw o fewn parth Morlais, Ynys Môn.



Construction of Morlais site

> "Mae gweithio yn y diwydiant peirianneg sifil yn fy ardal leol yn rhywbeth rydw i wedi bod eisiau erioed.
>
> Rwy'n gobeithio gallaf datblygu fy ngyrfa yma, drwy weithio gyda pheirianwyr sifil profiadol sydd hefyd yn dod o'r ardal."
>
> Twm Tudor, Bryngwran

# Lansio Cynllun Sgiliau a Cyflogaeth Gogledd Cymru



Lansiodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth newydd, sy'n rhoi cipolwg ar gyflenwad a galw'r system sgiliau yn y rhanbarth a beth yw blaenoriaethau cyflogwyr.

Daeth mwy na 160 o gyflogwyr i'r lansiad i glywed sgyrsiau a thrafodaethau panel. Mae'r cynllun yn gosod y blaenoriaethau ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

# Dewch yn ôl!



Aelodau newydd y tîm: Danial a Rhianne

Mae dau berson ifanc wedi dychwelyd a symud i Ogledd Cymru i ymuno â thîm ynni Uchelgais Gogledd Cymru. Gadawodd Danial a Rhianne Gaerdydd, gyda eu partneriaid, i Landudno a Ynys Môn a dechrau eu swyddi newydd yn hybu'r sector ynni carbon isel yn y rhanbarth.

Stori Danial a Rhianne

# Llyfryn Newydd am Brenstisaid Uwch a Gradd

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu llyfryn prentisiaethau i gefnogi cyflogwyr ac unigolion sydd angen cymorth i ddod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd prentisiaeth y rhanbarth. Mae'r llyfryn newydd yn dangos y llwybrau prentisiaeth lefel uwch a gradd a'r darpariaethau sydd ar gael yng Ngogledd Cymru a sut y gall busnesau ddod o hyd i gymorth ychwanegol.

Llawrlwytho'r Llyfryn



# Cyfarwyddwr Portffolio yn cael ei chydnabod ar y rhestr 100 o Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol

Cydnabwyd Alwen Williams am ei chyfraniad i restr 100 Ysgogwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ystod ei chyfnod mewn busnes pan basiwyd y Ddeddf ac yn ei rôl bresennol yn arwain y Cynllun Twf.

Roedd y rhestr yn cynnwys gweithwyr sector cyhoeddus, dylanwadwyr, busnesau a gwirfoddolwyr sydd wedi helpu i wreiddio'r nodau llesiant ledled Cymru. Roedd Alwen ymhlith y llu o enwau o Ogledd Cymru ar y rhestr.

Am fwy

YSGOGWYR NEWID
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
100
FUTURE GENERATIONS
CHANGEMAKER